

Rhwydwaith Newydd dros Heddwch a Chyfiawnder

Daeth unigolion a mudiadau o bob cwr o Gymru ynghyd ddydd Iau, 30 Tachwedd, i sefydlu Heddwch ar Waith, rhwydwaith ymgyrchu newydd dros heddwch a chyfiawnder.

Mae Heddwch ar Waith (*Peace Action Wales*) wedi ei ariannu trwy Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree gyda'r bwriad o gynyddu'r cydweithio rhwng mudiadau heddwch a chyfiawnder er lles pobl a chymunedau Cymru a'r byd.

Mae'r rhwydwaith am i bobl fod yn ganolog i'r hyn fydd Heddwch ar Waith yn ei gyflawni, gan eu harwain yn eu hamcanion. Yn rhan o'r gwaith mae Heddwch ar Waith wedi sefydlu tair ffrwd benodol:

- mapio hyd a lled militariaeth yng Nghymru
- sefydlu dulliau o ddosbarthu a rhannu gwybodaeth ar fod yn ddi-drais
- adeiladu rhwydwaith o lobïwyr dros gyfiawnder.

Un o brif amcanion Heddwch ar Waith fydd cydweithio â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol tuag at y nod o wneud Cymru'n Genedl Heddwch. Drwy greu cenedl â heddwch wrth ei chalon, mae modd grymuso pobl i newid cyfeiriad ein heconomi, ein cyfundrefn addysg a'n diwylliant tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy a diogel.

Mae'r hyn sy'n digwydd yn Gaza, Wcráin, Sudan a sawl man arall yn profi bod angen edrych ar heddwch fel ateb i wrthdaro ac nad oes modd cael cyfiawnder trwy dulliau treisgar

Sam Bannon o Heddwch ar Waith sy'n ymhelaethu:

'Mae Heddwch ar Waith yn gyfle euraidd i Gymru arwain ar greu cymdeithas gyfiawn a theg. Gan weithio fel rhan o'r ymgyrch



Llun: Marian Delyth

ryngwladol i weithredu'n wirioneddol dros heddwch, mae'r rhwydwaith yn ein galluogi i ddechrau buddsoddi mewn dulliau sy'n rhoi pobl o flaen elw a thrachwant pŵer.'

Am fwy o wybodaeth neu os hoffech fod yn rhan o weithgorau Heddwch ar Waith, cysylltwch â: heddwchArWaith@gmail.com

Trydydd Sul yr Adfent

Gweddïwn

Arglwydd, creaiſt ni yn bobl greadigol.

Diolch am ddawn rhai i greu prydfwrthwch o bethau di-nod.



Fel mae Khaleda Begum yn cysylltu'r bids lleiaf i greu campweithiau cywrair, cofiwn ein bod ni wedi ein cysylltu â'n brodyr a'n chwiorydd ar draws y byd yr Adfent hwn.

Ac wrth i ni ddysgu am brofiadau eraill, down i sylweddoli ein bod yn rhan o dy gampwaith amrywiol di.

Wrth i ninnau yma yng Nghymru ddisgwyl i oleuni Seren Bethlehem oleuo ein bywydau unwaith eto eleni, cofiwn am Khaleda, ei theulu, ei phartneriaid busnes a'i chymuned.

Diolch bod ei harweiniad i'w theulu a'i chymuned a'i dyfalbarhad wrth sefydlu ei busnes yn goleuo llwybrau i ferched ifanc Bangladesh allu llwyddo a ffynnu.

Bendithia waith Aid Comilla a holl bartneriaid Cymorth Cristnogol sy'n

cefnogi merched fel Khaleda i ddysgu sgiliau newydd er mwyn gwella eu sefyllfa a dod â gobaith a llawenydd i'w bywydau a'u cymunedau.

Boed i neges o obaith Gŵyl y Geni ein hatgoffa o'n cyfrifoldeb i fod yn oleuni yn y manau tywyll hynny yn ein byd heddiw.

Mae'n amser i ni gysylltu o'r newydd â thi, Arglwydd, a thrwy hynny â'th blant ar draws y byd.

Derbyn ni, nertha ni, goleua ein ffordd ac arwain ni

Yn enw Iesu,

AMEN.

Mererid Mair Williams
Caernarfon

Allwn ni ddileu digartrefedd
yng Nghymru?

Tudalen 2

O'r Llwyfan
Tudalen 4

Cyflwyno Medalau Gee yn Hermon,
Pencader a'r Talwrn

Tudalen 5

Allwn ni ddileu digartrefedd yng Nghymru?

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar y [Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru](#). Mae'n nodi ystod o gynigion sy'n gweithio tuag at uchelgais Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu atal ac ailgartrefu'n gyflym, i wneud digartrefedd 'yn brin ac yn fyrhoedlog ac na fydd yn ailddigwydd'. Mae'r cynigion yn seiliedig ar argymhellion [Panel Adolygu Arbenigol](#). Fe all y ddeddfwriaeth hon 'arwain y byd', ond mae'n debygol y bydd rhwystrau sylweddol gyda'i gweithredu. Bu Cymru yn arwain y DU trwy ymgorffori atal digartrefedd mewn gwasanaethau statudol, ac uchelgais y Papur Gwyn yw mynd â hyn gam ymhellach. Y prif gynigion ynddo yw:

Rhoi terfyn ar y profion '[angen blaenoriaethol](#)' a '[digartref yn fwriadol](#)', sydd ill dau wedi'u defnyddio i gyfyngu ar faint o help a gynigir i rai pobl. Gallai eu dileu symleiddio'r broses. Mae'n debygol y byddai rhaid i Awdurdodau Lleol gynnig cymorth mwy sylweddol i fwy o bobl, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt brynu neu adeiladu tai cymdeithasol y mae mawr eu hangen.

Uchelgais i wella safonau llety dros dro. Croesewir hyn, gan fod llawer o unigolion yn disgrifio'u profiadau mewn llety o'r fath fel rhai ynysig a thrawmatig. Fodd bynnag, bydd angen buddsoddiad a chymorth sylweddol ar Awdurdodau Lleol i wireddu hyn, o ystyried bod [dros 11,000 o bobl](#) mewn llety dros dro ar hyn o bryd, ac mae'r defnydd o lety Gwely a Brecwast yn dal yn gyffredin iawn.

Ffurfioli atebion creadigol i heriau presennol yn y sector digartrefedd, megis 'Digartref Gartref' lle gall ymgeiswyr am dai aros gyda ffrindiau neu deulu yn hytrach na mewn llety dros dro heb golli mynediad at y ddyletswydd digartrefedd. Byddai hyn yn lleddfu rhywfaint o bwysau ar Awdurdodau Lleol ac yn caniatáu i aelwyd gadw'n sefydlog wrth chwilio am lety parhaol.

Cynigir dyletswydd statudol newydd i gefnogi ymgeisydd i gadw llety a sicrhawyd ar ei gyfer gan Awdurdod Lleol. Mae profiad aelod Cytûn Housing Justice Cymru yng nghynllun [Citadel](#) yn dangos bod llawer o unigolion yn gwerthfawrogi cymorth ar ôl symud i lety parhaol a setlo i mewn i gymuned newydd, sydd hefyd yn helpu i atal digartrefedd mynych.

Mae'r cynigion yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wireddu ei uchelgais i roi diwedd ar ddigartrefedd. Ond rhaid i'r uchelgais honno gael ei chefnogi gan adnoddau cyfalaf a refeniw, ac mae arian yn brin iawn ar hyn o bryd. Her allweddol fydd y cyllid annigonol ar hyn o bryd ar gyfer y [Grant Cymorth Tai](#), sy'n ariannu'r rhan fwyaf o wasanaethau digartrefedd a

chymorth tai yng Nghymru – mae angen ei gynyddu i fodloni'r galw a'r costau cynyddol. Mae cynghorau lleol yn torri'n ôl ar eu gwasanaethau, wrth i gyllidebau grebachu: dyna pam mae aelod Cytûn, Byddin yr Iachawdwriaeth, yn canfod bod ei wasanaethau'n gorfod symud o atal digartrefedd i ymateb mewn argyfwng. Er y gall elusennau fel Byddin yr Iachawdwriaeth wneud iawn am rywfaint o'r diffyg o'u hadnoddau eu hunain, mae terfyn ar ba mor bell y gall hynny fynd.



Eleni enillwyd cystadleuaeth flynyddol pêl-droed pum bob ochr gwasanaethau digartrefedd Byddin yr Iachawdwriaeth, Tlws y Bartneriaeth, gan dîm Tŷ Gobaith, Caerdydd – yn y llun gyda chyn gôl-geidwad Lloegr Peter Shilton OBE.

Mae hyn yn darlunio'r heriau mynych gydag uchelgais y Papur Gwyn o ran mwy o weithio mewn partneriaeth, ac mae effeithiau hynny yn fwy amlwg yng nghanol argyfwng costau byw pan fo gwasanaethau ac adnoddau dan fwy o straen nag erioed. Mae'r ddogfen ymgynghori lawn ar gael [yma](#) a chroesewir ymatebion tan 16 Ionawr.

Yn y cyfamser, mae eglwys lleol yn awyddus i roi cymorth ymarferol i bobl ddigartref. Yn ogystal â phrosiect Citadel Housing Justice, gall eglwys gefnogi Byddin yr Iachawdwriaeth yn lleol. Fel eglwys ac elusen, mae Byddin yr Iachawdwriaeth yn cefnogi pobl mewn pob math o angen, trwy 36 corfflu lleol yng Nghymru a gwasanaethau arbenigol. Mae cynnydd yn y galw am ei chymorth gyda digartrefedd, ac mae'n ceisio diwallu'r angen hwnnw drwy amrywiaeth eang o wasanaethau ledled Cymru – Tai Gobaith, prosiectau cymorth fel y bo'r angen a gwaith allgymorth. Yn hollbwysig, wrth i nifer y bobl sy'n cysgu allan ac mewn llety dros dro godi, maent yn gorfod canolbwyntio fwyfwy ar ymateb i argyfyngau, yn hytrach na gweithio i'w hatal. Mae teuluoedd a phobl sengl yn mynd i drafferthion ariannol, gyda niferoedd uwch bellach angen cefnogaeth a llety dros dro. Nawr yn fwy nag erioed mae Byddin yr Iachawdwriaeth am barhau i helpu pobl i osgoi colli eu cartrefi a dod o hyd i ffyrdd cyflym allan o ddigartrefedd.

Gweledigaeth Byddin yr Iachawdwriaeth yw 'Cyflawnder bywyd i bawb gyda lesu'. Mae ei gwasanaethau digartrefedd a'r corffluedd yn gweithio'n galed i gyflawni hynny mewn ffyrdd ymarferol iawn.

Maent wedi ymrwymo i helpu lle bynnag y mae ei angen ac yn croesawu ehangder ac uchelgais y Papur Gwyn. Ond mae angen yr adnoddau i wneud y gwaith.

Mae'r elusen Gristnogol [Hope into Action](#) hefyd yn cynnig ffyrdd o alluogi eglwys i gartrefu'r digartref. Ei gweledigaeth yw gweld pob eglwys yn darparu cartref cariadus i'r bobl a effeithir gan ddigartrefedd, a thrwy'r cariad hwnnw gweld trawsnewid bywydau.

Mae model Hope into Action yn galluogi unigolion neu grwpiau o bobl i fuddsoddi mewn tai y maent wedyn yn eu prydlesu a'u defnyddio i ddarparu cartrefi o ansawdd da. Yn y modd hwn, gall pobl rannu eu cyfoeth gyda'r tlawd. Ar hyn o bryd mae ganddyn nhw 110 o gartrefi mewn tua 30 o drefi a dinasoedd ledled y DU, gyda mwy ar y gweill.

Mae Hope into Action yn credu mai tlodi perthnasoedd yw gwraidd llawer o ddigartrefedd. Nid oes gan bobl unrhyw le i fynd oherwydd nad oes ganddynt neb i fynd atynt, neu mae ganddynt berthynas afiach â phobl neu â sylweddau. Trwy ddarparu cartrefi diogel a meithrin perthnasoedd cadarnhaol, maent yn grymuso tenantiaid â gobaith am newid. Darperir cefnogaeth broffesiynol i denantiaid trwy 'Weithiwr Grymuso' a mentora, a chynigir cyfeillgarwch a chymuned trwy wirfoddolwyr o'r eglwys leol. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i eglwys ymgysylltu'n ysturlon â'r rhai sydd mewn sefyllfaoedd bregus. Maen nhw'n dweud, "Dydyn ni ddim yn gorfodi ein ffyrdd ar neb, ond rydyn ni'n credu yn nylanwad trawsnewidiol perthynas gariadus â Thad nefol. Gweithiwn gydag eglwys o amrywiol draddodiadau, gan feithrin undod Cristnogol ynghanol amrywiaeth. Mae partneriaeth agos ag eglwys lleol wrth wraidd model Hope into Action. Mae'r gefnogaeth a gynigir gan yr eglwys yn hollbwysig."

Gellir cysylltu â Hope into Action trwy info@hopeintoaction.org.uk



Un o denantiaid Hope into Action yn derbyn un o'u 'Gwobrau Tenantiaid'

Llawer o ddiolch i Housing Justice Cymru, Byddin yr Iachawdwriaeth a Hope into Action am eu cyfraniadau i'r erthygl yma.

(Allan o [Fwletin Polisi Cytûn](#) Rhagfyr 2023–Ionawr 2024)

Taith y Tab i Eglwys Gymraeg Canol Llundain

Yng nghanol mis Tachwedd, ac ardduniadau y Nadolig yn barod yn disgleirio ar Oxford Street, aeth criw o bobl ifanc y Tabernacl, Caerdydd, a'u rhieni ar drip i gynnal oedfa yn Eglwys Gymraeg Canol Llundain. Roedd hon yn wibdaith flynyddol cyn y pandemig, a braf oedd ailgydio mewn hen draddodiad. Mae perthynas agos wedi bodoli rhwng y ddwy eglwys ers degawdau lawer, a dyfnhawyd y cysylltiad hwn wrth iddynt alw ein cyn-ysgrifennydd, Rob Nicholls, yn weinidiog arnynt.

Cafwyd cyfle i ymlacio ar y dydd Sadwrn, gan fynychu oedfa yn Abaty San Steffan i goffáu'r bardd Dylan Thomas, mwynhau drama yn y West End, cyn cael swper yn Chinatown.

Thema'r gwasanaeth ar y bore Sul oedd 'Dwylo Iesu Grist'. Cafwyd dau anerchiad pwrpasol a grymus gan Noa Evans a Gwion Rhisiart ar y testun 'Dwylo gweithiwr yw dwylo Iesu Grist' a 'Dwylo cyfaill yw dwylo Iesu Grist'. Uchafbwynt



arall y gwasanaeth oedd unawd gan Hanna Edwards 'Ein traed a'n dwylo ni', gwaith a gyfansoddwyd gan ddau o aelodau'r Tabernacl, sef Euros Rhys Evans a Robin Gwyndaf.

Diolch i'r Parch. Rob Nicholls a swyddogion yr eglwys, Ann Batey a Marian Howell, am y gwahoddiad a'r croeso cynnes, ac edrychwn ymlaen yn barod at daith y flwyddyn nesaf!

Rhodri ab Owen

Bore Coffi Capel y Garn yn codi arian at y banc bwyd lleol

Bore Sadwrn, 2 Rhagfyr, er gwaetha'r hin rewllyd y tu allan, roedd croeso cynnes yn festri Capel y Garn, Bow Street, i Fore Coffi'r Adfent a drefnwyd gan y Chwiorydd. Cafwyd bore o sgwrsio hwyliog dros baned a mins pei, yn ogystal â cheisio datrys y cliwiau cryptig i'r cwis darluniadol blynyddol. Codi arian tuag at Stordyr Jiwbilî, sef y banc bwyd lleol sydd wedi'i leoli yn Eglwys y Santes Anne, Penparcau, oedd pwrpas y bore coffi. Mae'r angen am gefnogaeth i'r banc bwyd wedi cynyddu'n sylweddol, gyda'r galw wedi dyblu ers y llynedd. Yn wir, wythnos olaf mis Tachwedd oedd eu hwythnos brysraf erioed. Yn dilyn y bore coffi, trosglwyddwyd swm o £732 at yr achos teilwng hwn – diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni.



Gair o gydymdeimlad

Gyda thristwch y clywsom am farw'r Parch. Robert Bebb, Llanidloes, ar 30 Tachwedd. Bu'n fugail gofalus a diwyd ar eglwysi ei ofalaethau gydag Eglwys Bresbyteriaidd Cymru yng nghylch Caerdydd i ddechrau, ar Gilgwri, cyn dychwelyd i Gaerdydd, i eglwys Park End, Caerdydd, ac yna ymddeol yn ôl i'w fro enedigol yn Llanidloes. Bu'n arweinydd doeth a hwyliog yn ein plith gan lenwi nifer o swyddi cyfundebol, gan gynnwys Llywydd y Gymanfa Gyffredinol ac yn fwy diweddar bu'n Llywydd ein Hadran Gweinidogaethau. Estynnwn ein

cydymdeimlad llwyrat â Jacqui, ei briod, ac Owen a Huw, ei feibion, a'u teuluoedd. Bydded iddynt yr un nerth a gras ag a gynhaliodd Robert hyd y diwedd.

Yn yr un modd, fe estynnwn ein cydymdeimlad â'r Parch Wayne Adams, Pontypridd (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweinidogaethau EBC) sydd wedi colli ei dad, Malcolm, yn ddiweddar. Cofiwn am y teulu i gyd yn eu colled a diolchwn am addewid yr Arglwydd i gysuro a diddanu'r rhai sy'n galaru. Gweddiwn am y diddanwch hwnnw dros bawb sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar.

Nos Nadolig

Un nos oedd a'r gae'n nesáu a'i we o rew'n britho'r bryniau, a chaed dau yn chwennych tŷ.

Dan bob bargod fe'u gwrthodwyd, a hwy eu dau a adawyd heb aelwyd a heb wely.

Trwy erfyn, cael troi o'r oerfel i mewn i ofod mewn hofel hostel i ddau ddi-westy.

Ac yno, trwy wyrth blygeiniol dau ufudd yn profi'r dwyfol 'n awr iasol geni'r Iesu.

Yr undeg er ei moryndod mwy yn fam trwy hen gyfamod, a Duw'n bod yn y beudy.

Eirian Dafydd

O'r Llwyfan

Swyddog Cenadaeth a Chyfathrebu Digidol

Ddechrau mis Awst, hyfrydwch oedd cael croesawu ein Swyddog Cenadaeth a Chyfathrebu Digidol newydd, sef Miss Sioned Graves. Daw Sioned yn wreiddiol o Gaerdydd a graddiodd mewn daearyddiaeth o Brifysgol Durham cyn treulio blwyddyn fel intern gyda'r mudiad Cristnogol Burn 24/7. Mae Sioned yn gyfrifol am gyfathrebiadau mewnol ac allanol yr Undeb, gan gynnwys golygu'r cylchgrawn 'Y Negesydd', y wefan a'r sianelau cyfathrebu cymdeithasol. Yn ogystal, mae'n cydweithio â'r Cyfarwyddwr Cenadaeth, y Parchg Simeon Baker, er mwyn annog cenadaeth ymhlith ein heglwys. Croeso cynnes, Sioned!



Sioned Graves

Yr un pryd dymunwn yn dda i'n Gweinyddydd, Mrs Gwen Lye-Phillips, sydd ar fin cychwyn ar gyfnod mamolaeth. Ddiwedd mis Tachwedd, dechreuodd Mrs Elna Davies yn ei swydd fel Gweinyddydd Dros Dro, ac yr ydym yn estyn croeso cynnes iddi hithau hefyd.

Cyrrddau Sefydlu

Roeddwn yn falch iawn o'r cyfle i fod yn bresennol mewn dwy oedfa sefydlu yn ystod mis Medi.

Cynhaliwyd Oedfa Sefydlu'r Parchg Sian Elin Thomas yn Eglwys Pen-y-bont, Llandysul, Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion. Mae Sian eisoes yn weinidog ar Eglwys y Graig, Castellnewydd Emlyn, ac Ebeneser, Dyfed. Bythefnos yn ddiweddarach bŵm yn Eglwys Smyrna, Pen-y-fai, Cymanfa Gorllewin Morgannwg, lle'r oedd Miss Dorithy Evans yn cael ei sefydlu yn Weinidog yno. Deisyfwn fendith Duw ar Sian a Dorithy!

Cyngor Unedig

Ddiwedd mis Hydref cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Unedig Undeb Bedyddwyr Cymru. Yn ystod y cyfarfod etholwyd Ymddiriedolwr newydd, sef y Parchg Mervyn Rigg o Gasnewydd. Diolchwn am ei barodrwydd i wasanaethu a diolchwn hefyd am wasanaeth y Parchg Jon Forman sydd newydd orffen ei dymor o dair blynedd fel Ymddiriedolwr.



Y Parchg Mervyn Rigg

Yn ystod y cyfarfod cyflwynwyd Adroddiad 2041 a oedd yn seiliedig ar sefyllfa debygol yr Undeb ymhen ugain mlynedd, o dderbyn y bydd y patrwm presennol o ddirywiad yn parhau. Yn sicr, fe fyddai yna leihad sylweddol yn nifer ein heglwys a'n gweinidogion, ond dengys yr ystadegau hefyd y bydd yna eglwys bedyddiedig yn parhau i dystio. Er bod y darlun yn ddigon digalon ar y cyfan, mae'r sefyllfa hefyd yn cynnig cyfleoedd i gefnogi ac annog ein gilydd. Wedi ystyried yr adroddiad cawsom adborth adeiladol gan aelodau'r Cyngor, a'r bwriad nawr yw cychwyn ar y gwaith

o gynllunio gyda'n Cymanfaeodd a'n heglwys ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Fe fydd hon yn dasg heriol ond yn un a fydd yn rhaid mynd i'r afael â hi er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer cyd-destun yr unfed ganrif ar hugain.

Hwb Trafod Cydenwadol Maenclochog

Hyfrydwch oedd cael bod yn bresennol yng nghyfarfod Hwb Trafod Cydenwadol Maenclochog ar 18 Hydref. Daeth dros hanner cant o gynrychiolwyr brwd o'r gwahanol enwadau ynghyd i drafod dyfodol y dystiolaeth Gristnogol yn sir Benfro. Profiad calonogol oedd gweld llond neuadd o bobl yn cefnogi'r cyfarfod drwy rannu syniadau, yn ogystal â dangos awydd i fwrw ati i gynllunio yn greadigol. Ai dyma fydd y patrwm ar gyfer y dyfodol a hynny'n arbennig mewn perthynas â'n heglwys Cymraeg eu hiaith? Edrychwn ymlaen at y cyfarfod nesaf a gynhelir ym mis Chwefror.

Ond beth bynnag yw'r atebion, rhaid cofio mai gwaith Duw yw'r dystiolaeth Gristnogol ac oddi wrth Dduw y daw'r arweiniad. Yr un pryd rhaid i ninnau fwrw ati i ymroi i waith y Deyrnas gan ddefnyddio pob gallu a dawn i fentro ac arbrofi. Golyga hyn y bydd yn rhaid cofleidio ffyrdd newydd o genhadu ond gan ymddiried y cyfan yn ein Harglwydd Iesu, yr hwn sydd â'r gallu i wneud yn anhraethol well na dim y gallwn ni ei ddeisyfu na'i ddychmygu.

Boed bendith gyfoethog Duw ar waith ein heglwys ar gyfer y Flwyddyn Newydd.

Judith Morris
Ysgrifennydd Cyffredinol
Undeb Bedyddwyr Cymru

Gwasanaethau Nadolig o dan arweiniad y plant a'r bobl ifanc

Tybed oes 'na wasanaeth yn eich capel / gofalaeth lle cyflwynir gwasanaeth o dan arweiniad criw'r ysgol Sul eleni? Os bydd gwasanaethau'n cael eu cynnal ddydd Sul, 17 Rhagfyr, tybed fyddai modd i chi yrru lluniau atom yn syth - erbyn nos Sul os bydd yn bosib, er mwyn eu gosod ar dudalen flaen rhifyn 20 Rhagfyr o *Cenn@d*. Y cyfan sydd ei angen yw UN llun a brawddeg syml yn disgrifio'r achlysur.

Os na fydd hyn yn bosib, gofynnwn i chi yrru unrhw luniau ac adrodiadau atom erbyn diwedd y flwyddyn, er mwyn i ni eu cynnwys yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Cofiwch hefyd fod angen sicrhau caniatâd i dynnu a rhannu lluniau, a gofynnwn i chi sicrhau bod y caniatâd hwnnw wedi ei roi.

(Gol.)

Cyflwyno Medalau Gee yn Hermon, Pencader a'r Talwrn



O'r chwith i'r dde: Aled Davies, Haulwen Lewis, a dderbyniodd y fedal eleni, a Nancy Jones, a dderbyniodd ei medal rai blynyddoedd yn ôl, ac sydd newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed



O'r chwith i'r dde: Guto Prys ap Gwynfor, gweinidog yr eglwys, ac Aled Davies gyda Gwyn Howell Jones a'i briod



Plant Ysgol Sul y Tabernacl, Pencader, ynghyd â Haulwen Lewis, Chris Bolton, y gweinidog, ac Aled Davies



Rhan o'r gynulleidfa a ddaeth ynghyd i Siloam, Talwrn, gyda Gwynfor Parry yn eistedd yn y canol



Gwyn Howell Jones yng nghwmni ei deulu



O'r chwith i'r dde: Bethan Jones, Gwynfor Parry ac Aled Davies

Yn ystod mis Tachwedd cafwyd cyfle i ymuno â thair cynulleidfa leol er mwyn cyflwyno medal Gee i un o'r ffyddloniaid yno. Wrth ymweld â chapel Hermon ger Cynwil Elfed, capel y Tabernacl ym Mhencader a chapel Siloam, Talwrn, ger Llangefni, roedd sawl peth yn gyffredin bob tro.

Yn y lle cyntaf, roedd y croeso yn un cynnes, gyda chynulleidfaoedd lleol yn llenwi'r capeli – yn gymysgedd o aelodau ffyddlon a gweithgar, cymdogion a theulu'r sawl oedd yn derbyn y fedal, a chyn-aelodau'r ysgol Sul wedi gwneud ymdrech arbennig i fod yn bresennol.

Yn ail, er mai medal am ffyddlondeb i'r ysgol Sul oedd yn cael ei chyflwyno,

roedd yr hanes a gyflwynwyd gan weinidogion a swyddogion yr eglwys am y rhai oedd yn derbyn y fedal yn llawn teyrngedau o brysurdeb a gweithgarwch dros flynyddoedd lawer.

Guto Prys ap Gwynfor a gyflwynodd hanes David Gwyn Howell Jones i ni yn Hermon, Cynwil Elfed; Chris Bolton soniodd am weithgarwch Haulwen Lewis yn y Tabernacl, Pencader, yn arbennig ei gofal am y plant a'r bobl ifanc; a Bethan Jones yn Nhalwrn, ger Llangefni, yn sôn am gyfraniad Gwynfor Parry i holl weithgarwch yr eglwys.

Yn drydydd, wedi'r seremoni o gyflwyno'r medalau Gee gan Aled Davies ar ran y teulu Gee, roedd yna wledd wedi ei

pharatoi bob tro, un ai yn y festri neu yn Oriel Môn.

Mewn dyddiau a fu, trefnwyd un cyfarfod yn y de ac un yn y gogledd, ond ers y cyfnod clo aed ati i'w trefnu'n lleol. Heb amheuaeth, bu hynny'n fendith, o weld yr eglwys a'r gymuned gyfan yn ymgynnull i ddangos eu cefnogaeth a'u gwerthfarrogiad i rai a wnaeth gyfraniad arbennig yn eu milltir sgwâr.

Cofiwch fod y medalau'n cael eu cyflwyno'n flynyddol, a bod yn rhaid i enwau'r rhai a enwebir fod dros 75 oed. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn medal yn 2024 yw 30 Mehefin. Mae ffurflen gais ar gael o wefan ysgolsul.com.

Gair Duw ar Waith gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrddodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 12

Darlleniad: 2 Brenhinoedd 4:42-4

17 Rhagfyr



Cyflwyniad

Bydd cyfnod Eliseus a'r hanesion sy'n gysylltiedig ag ef yn rhyfeddol, ac yn hanes y gŵr o Baal-salisa yn dod â'r bara sanctaidd at ŵr Duw cawn gysgod o hanes Iesu yn troi byrbryd bachgen bach i fod yn ddigon i fwydo'r miloedd.

Pan ddeallwyd ganddynt fod y rhoddwr am gynnig y bara i'r cant o wŷr a oedd gerllaw, ymatebodd yr offeiriaid a wasanaethai yn y cysegr drwy ddweud nad oedd digon yno ar gyfer cymaint o bobl. Eto, ar anogaeth rhoddwr y bara, gwahoddwyd y dynion i fwyta, ac ar y diwedd roedd pawb wedi eu digoni, â bwyd yn weddill.

Nid yw cofnodydd Llyfr y Brenhinoedd yn cynnig eglurhad nac esboniad, ond bod yr hanes yn gwahodd pobl at y byrddau a rhywfodd bydd digon ar gyfer y sawl sy'n cyrraedd. Dywed lawer am ffydd a rhyfeddod yr hyn a wnaeth Duw gyda'r ychydig y bydd dynion yn ei gyflwyno. Dywed lawer hefyd am draddodiad anrhydeddus yr Iddew o rannu ac ymddiried yn llaw Duw.

Myfyrdod

Bydd llawer o eglwysi yn manteisio ar y cyfleoedd a ddaw i ymgynnull o gwmpas y byrddau, ac mae traddodiad anrhydeddus gan yr eglwysi o gwmnïa a mwynhau pryd, boed ar ddiwedd oedfa neu gynhadledd, neu ar achlysuron dathlu yn hanes yr eglwys.

Ceir enghreifftiau hefyd o eglwysi'n cydweithio ag eraill i drefnu darpariaeth ar gyfer dieithriaid adeg y Nadolig. Bydd rhai Cristnogion sydd heb deulu yn ei weld fel cyfle i wasanaethu eraill tra ceir hanes am bobl yn ildio'u pryd bwyd arferol eu hunain er mwyn dangos bod yr eglwys yn uniaethu â'r sawl

sy'n ddigartref ac yn ddigysur. Ceir enghreifftiau hyfryd o garedigion felly yn Nhrecynon, Aberdâr, a Chlydach yng Nghwm Tawe. Bu sawl tref yn cynnig gwasanaeth tebyg dan faner 'Crisis at Christmas', a byddai'n braf i ni glywed am ardaloedd eraill sydd wedi mentro gyda chynlluniau tebyg. Nid pawb all wneud hyn, wrth reswm, fel pob cynllun arall, ond mae'n ymdrech brydferth i ddangos bod yr eglwys yn gynhwysol a pharod ei gwasanaeth.

Un o'r golygfeydd heriol yw gweld pobl sy'n amlwg ar eu cythlwng yn edrych drwy ffenestri siopau a thai bwyta crand, yn gweld yr hwyl a'r gyfeddach sydd yn digwydd yn ystod mis Rhagfyr, a hwythau yn byw yn nhywyllwch eu hunigrwydd. Faint o bobl sydd yn eich ardal chi fydd yn treulio dydd Nadolig

Gweddi oedfa'r Adfent

Yn rhan o ddathliadau o bob math ar draws yr holl fyd, ry'n ni yma fel cymuned eglwysig yn nhymor yr Adfent.

Cawn ein cymell i edrych ymlaen yn eiddgar at eni plentyn, a hwnnw'n blentyn a anwyd mewn amgylchedd tlawd a chyffredin. Yn yr oedfa hon ceisiwn beidio â gweld stori'r Nadolig fel stori un tro. Nid stori ar gyfer un diwrnod yw hi, gan ei rhoi o'r neilltu fel y goeden Nadolig a'r tinsel tan i ni eu hailddefnyddio ymhen blwyddyn.

Gogoniant stori'r Dolig yw ei gallu i'n newid ni.

Os ddathlwn y dydd, ac wedyn symud ymlaen, ry'n ni'n israddio'r stori i fod yn un hud a lledrith sy'n chwarae ei rhyfeddodau arnom ni am ddiwrnod neu ddau yn unig.

yn ddi-gwmni? Tybed a allai eglwys gynnull criw o bobl felly a phwy a wyr y byddai hynny yn creu cymuned Newydd o ffrindiau i'r flwyddyn newydd?

Gweddi

Arglwydd y torthau a darparwr y Bwrdd Sanctaidd, dyro i ni weledigaeth o'r hyn sy'n bosibl yn ein bro. Maddau i ni os byddwn yn chwilio am yr agweddau negyddol cyn rhoi o'n gorau i'w goresgyn. Dyro i ni dy weld di wrth y byrddau ac yn troi'r pryd bychan yn wled y bywyd. Amen.

Cwestiynau i'w hystyried

- 1 Aoeddech wedi synhwyro digwyddiad syml yng nghyfnod Eliseus yn gysgod o wyrth bwydo'r miloedd yng ngweinidogaeth Iesu?
- 2 A fydddech yn synnu pe bai un o aelodau eich cymuned yn dod â rhywbeth annisgwyl atoch ac yn dweud mai dyna oedd/yw gair yr Arglwydd?
- 3 Beth yw cenhadaeth ein dathliad o'r cymunedeb?
- 4 Sut mae diffinio unigrwydd mewn tyrfa?
- 5 A yw'r term 'Crisis at Christmas' yn gwrth-ddweud ei hunan? Ond datrys argyfwng dynoliaeth oedd amcan y Nadolig cyntaf?

Gadewch i ni gario stori'r Dolig i bob rhan o'n bywydau.

Gadewch i ni gario llawenydd a gobaith, tangnefedd a chariad i bob dydd o'n bywydau.

Gadewch i ni ddysgu rhannu ysbryd y Dolig gyda phob person y byddwn ni'n ei gyfarfod, gydol y flwyddyn.

Gadewch i bob un ohonom fod yn bont rhwng Nefoedd a Daear ... am fwy nag un diwrnod yn unig.

Wrth i ni wahanu ar ddiwedd oedfa, gadewch i ni fod yn blant yr Adfent, a phlant ysbryd y Nadolig, a hynny wrth ddathlu a chydweithio gydol y flwyddyn sydd i ddod i fod yn halen y ddaear ac yn oleuni i'r byd.

Amen.

Geraint Rees

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 17 Rhagfyr – Yr Hen Garolau Cymreig

Ar drydydd Sul yr Adfent bydd Ryland Teifi yn pori drwy'r archifau ar drywydd ein hetifeddiaeth gyfoethog o garolau Cymreig yn Amgueddfa Sain Ffagan. Ac i'n paratoi at y Nadolig, cawn berfformiad arbennig gan Ryland ei hun.

BBC radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 17 Rhagfyr, am 7:30yb a 16:30yp

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Siôn Rhys Evans

Oedfa Radio Cymru
Sul, 17 Rhagfyr, am 12yp
Oedfa dan ofal Owain Davies, Llanrwst

Neges Adfent 2023, rhan 2

Thema: Llawenydd

Emynau:

Caneuon Ffydd 468 – ‘Tua Bethlem dref’

Caneuon Ffydd 479 – ‘Daeth Crist i’n plith’

Darlleniadau:

Eseia 9:2–7 – Geni Bachgen

Luc 2:18–23 – Genedigaeth Iesu Grist

• Llawenydd:

Rywfodd rywsut, tydi'r gair llawenydd ddim yn cyfleu'r un ystyr i mi â'r gair 'joy', yn fy ail iaith. Eto, byddwn yn goleuo cannwyll llawenydd i'n hatgoffa o'r modd y gallwn ni, drwy ffydd, gael ein rhyddhau o ddiflasedd peth o fywyd, a chael profi bywyd yn ei holl gyflawnder drwy ddibynnu ar Iesu.

Rhyddid rhag diflasedd bywyd. Ie, dyma union ddymuniad Joseff druan adeg y Nadolig cyntaf. Mae'n debyg fod y newyddion a roddwyd iddo gan Mair wedi ennyn sawl ymateb gan Joseff, ac o bosib rai na allwn ni eu hadrodd drwy gyfrwng pregeth! Siom, siom a siom, ac yntau wedi dyweddio â hi (roedd mwy o ystyr i ddyweddïad, cofiwch, yr adeg honno), a byddai gofyn ei hysgaru os oedd o am ddod â'r dyweddïad i ben. Ond, chwarae teg, roedd Joseff yn â'r cyfiawn, ac er na allai weld dyfodol gyda Mair, ni fynnai ei chywilyddio'n gyhoeddus chwaith.

Dryswch ar ben dryswch iddo. Diolch byth ei fod o wedi penderfynu cysgu cyn penderfynu ac i Dduw anfon Gabriel ato mewn breuddwyd gyda'r neges fod Mair hefyd yn wraig gyfiawn, ddibynadwy a sanctaidd, ac y dylai ei chefnogi. Dyna adfer ei lawenydd a chodi ei ysbryd, yn arbennig felly wrth iddo ddod i ddeall y byddai'r 'Iesu' hwn yn dod yn Waredwr i blith pobl Israel.

Dyna oedd neges Salm 130:7–8 wrth gwrs:

Israel, gobeithia yn yr ARGLWYDD,
oherwydd gyda'r ARGLWYDD y mae ffyddlondeb,
a chydag ef y mae gwaredigaeth helaeth.
Ef sydd yn gwaredu Israel
oddi wrth ei holl gamweddau.

Dyna i chi destun llawenydd mawr: Duw yn dod yn ddyn, yr 'Emaniwl' – daeth Duw i fyw gyda ni. Onid dyna'r wyrth fwyaf y sonnir amdani yn y Beibl? Gallwn ni seiadu a dadlau hyd Sul y Pys am naratif y geni gwyrthiol, ond boed chi'n grediniwr neu'n sgeptig, nid dyma'r wyrth fwyaf. Y wyrth fwyaf i mi yw fod Duw wedi dewis dod atom ar ffurf baban mewn preseb ym Methlehem.

Yn sydyn reit, nid rhywun i fyny yn fan'na neu ble bynnag rydych chi'n meddwl y mae Duw ydi o. Mae yma gyda ni, yn byw yn ein mysg. Ond sut mae hynny'n bosib? Sut all hyn fod? Mae'r cyfan yn 'mind-boggling' rywsut, yn tydi? Eto, dyma a wahoddir ni i gredu. Dyna a ddaw â ni at ein gilydd gyda hyn i ddathlu gyda'n gilydd. Ac y mae dehongliad Mathew o eiriau Eseia yn gwbl arwyddocaol: nid jest o'n tu y mae Duw; y mae Duw gyda ni ac yn fyw yn ein mysg.

Fel y mae Efengyl Ioan yn ein hatgoffa: 'A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad' (1:14).

Dyna sy'n dod â hapusrwydd a gwir lawenydd i fywyd pob Cristion, yn arbennig felly ar drothwy'r Nadolig. Y gamp, wrth gwrs, yw byw'r llawenydd yma drwy gydol y flwyddyn. Fedr hynny ddim bod yn anodd, canys 'Crist yw fy ngwaredwr' yw tystiolaeth yr emynydd, a ninnau gydag ef.



• Cariad:

Aeth pawb felly i'w gofrestru, pob un i'w dref ei hun. Oherwydd ei fod yn perthyn i dŷ a theulu Dafydd, aeth Joseff i fyny o dref Nasareth yng Ngallileia i Jwdea, i dref Dafydd a elwir Bethlehem, i ymgofrestru ynghyd â Mair ei ddyweddï; ac yr oedd hi'n feichiog. (Luc 2:3–5)

Wyddoch chi, gyfeillion, rydyn ni'n cymryd cymaint o natur Duw yn ganiataol. Rydym yn barod i gredu fod Duw yn ein caru, ac eto mae hefyd yn caru'r byd. Os felly, yr awgrym yma yw ei fod yn caru ei bobl ac yn caru ei elynion. Dyna ddywed y Testament Newydd am Dduw. Daeth hyn yn wir yn yr ymgnawdoliad pan ddaeth Iesu yn ddyn, ac yntau â baich dros yr Iddewon a'r Cenhedloedd. Roedd Iesu yn ymgorfforiad o hyn – ffaiith, o bosibl, y mae arweinwyr Israel heddiw wedi colli golwg arni.

• Cannwyll Cariad

Dyma'r gannwyll olaf ond un. A bydd yn llewyrchu'n llachar fel y gweddill, gan gynnwys y gannwyll yn y canol: cannwyll Crist, Goleuni'r Byd.

Dewch gyda mi i Fethlehem am funud. Doedd y cyfrifiad ddim yn rhywbeth diarth i bobl y fro; byddai'n digwydd bob rhyw bedair blynedd ar ddeg. Bu raid i Mair a Joseff deithio rhyw 80 milltir o daith ac wedi cyrraedd yno, doedd yna ddim hotel na motel i'w gael. Lletyau digon cyntefig oedd ar gael bryd hynny, ac felly os mai dim ond y stabl oedd ar gael, wel dyna ni, byddai'n well na bod ar y stryd.

Ond mae yna arwyddocâd arall i mi i'r stabl a'r preseb. Roedd bywydau a chalonnau pobl mor brysur. Hyd yn oed heddiw neilltuir Iesu i sgubor bywyd oherwydd nad oes yna le iddo ym mhlastai ein bywydau. Eto i gyd, mae ffyddlondeb Mair a Joseff i Dduw yn anfesuradwy. Biti garw na fyddai ein ffyddlondeb ni iddo mor ddibynadwy. Ac er nad oedd y ddau yn deall popeth yr oedd Duw yn ei gyflawni drwyddynt, roeddynt yn actorion parod yn yr holl ddrama.

Os ydy Duw mor barod o hyd i ymddiried ynom ninnau heddiw, yna mae gofyn inni benderfynu bod yn deilwng o addewidion Duw i'n caru a'n cofleidio'n feunyddiol. Gyfeillion, does dim byd mwy grymus ac effeithiol yn hanes genedigaeth a datblygiad ein ffydd na hyn: daliwch gyda mi am ychydig bach eto ...

Mae pinacl a phenllanw cariad Duw i'w cael yng nghronicl Luc o'r enedigaeth wyrthiol: 'Pan oeddent yno, cyflawnwyd yr amser iddi esgor, ac esgorodd ar ei mab cyntaf-anedig; a rhwymodd ef mewn dillad baban a'i osod mewn preseb, am nad oedd lle iddynt yn y gwesty.' (2:6–7)

Dyma'r uchafbwynt wedi ei ganoli mewn un person, sef Iesu. Dyma fynegiant anhygoel o gariad Duw wedi ei wireddu ym

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Neges Adfent 2023, rhan 2 (parhad o dudalen 7)

Methlehem! Roedd y cyfan yn destun llawenydd i'r angylion yn ogystal â fforddion y ddaear. Rhwygwyd y nefoedd yn agored gyda'r fath ddathlu; arweiniwyd y bugeiliaid at y preseb er mwyn iddynt gael addoli'r Bugail Da; ymddangosodd seren annaturiol o anghyffredin i sylw rhyw ddoethion o'r Dwyrain, a'u harweiniodd at draed Brenin y Brenhinoedd ... a'r cyfan hyn o ganlyniad i gynllun cariadus Duw tuag atom ni, a phawb tebyg inni.

Cyn pen dim byddwn ni yn y broses o rannu anrhegion i amryw o bobl, a bydd natur yr anrheg neu ei gwerth yn dweud llawer am faint ein cariad at y sawl fydd yn ei derbyn. Dyna'n union faint rhodd a gwerth rhodd Duw ar y Nadolig cyntaf hwnnw. Amlygwyd hynny yng ngenedigaeth Iesu. Aberthodd Duw lawer mwy nag y gallwn ni ei amgyffred wrth anfon ei Fab i'r byd yn anrheg, nage, yn aberth drosom. A bod yn onest, mae'n anodd inni ddeall hynny ar brydiau.

Ond mae Duw yn disgwyl inni roi ein cariad mewn ffordd a fydd yn dangos ein parodrwydd ninnau i aberthu rhyw bethau, rhyw gynlluniau, rhyw freuddwydion er mwyn rhoi yn ôl rhyw fesur o gariad tuag ato Ef. Gelwir arnom i aberthu ein bywydau, ein doniau, ein meddiannau a'n hamser iddo oherwydd ein bod yn ei garu ac yn ei addoli.

Ffrindiau, yn ystod yr ŵyl eleni, gadewch inni ymuno gydag Eiseia a Luc ac ymateb i rodd arbennig Duw i ni gyda llawenydd mawr. Gadewch inni ddod i addoli a dilyn esiampl y salmydd a chôr yr angylion a dweud:

Bloeddiwch mewn gorfoledd i'r ARGLWYDD, yr holl ddaear.
Addolwch yr ARGLWYDD mewn llawenydd,
dewch o'i flaen â chân.
Gwybyddwch mai'r ARGLWYDD sydd Dduw;
ef a'n gwnaeth, a'i eiddo ef ydym,
ei bobl a defaid ei borfa.
Dewch i mewn i'w byrth â diolch,
ac i'w gynteddau â mawl.
Diolchwch iddo, bendithiwch ei enw.

Y Nadolig diwethaf, cefais gyfrol arbennig o gerddi'r Nadolig wedi'i golygu gan Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones. Ynddi mae englyn o waith Gruffudd Antur, o Lanuwchllyn, â'r pennawd: 'Mae'n Nadolig!'

Mae'r englyn yn awgrymu bod y Nadolig fel petai wedi dod ar ei warthaf heb iddo sylwi bron, a'i fod yn obeithiol, er gwaetha'r cyfan, y bydd goleuni Duw i'w weld yn glir drwy'r cyfan wedi'r drin. A dyma fo i chi:

Mae'n Nadolig!

Mae'n Nadolig, myn diawl-i! A hwyrach,
gyda'r hwyr, y gweli
gannwyll ddisgleiria'r Geni
'n tywynnu hardd drwy'n tŷ ni.

Boed bendith gyfoethog Duw ar ein haelwydydd, eich paratodau a'ch holl ddathliadau y Nadolig hwn. Hwyrach y gwelir kannwyll neu goron Adfent ddisgleiria'r Geni'n tywynnu'n hardd drwy eich tŷ chi. Amen.

Jim Clarke
Llanfair-pwll

Gweddï Nadolig 2023

Arweinydd: **Heddiw**, deunw at ein gilydd i gofio am y geni rhyfeddol ganrifoedd yn ôl.

Y gynulleidfa: **Heddiw**, mae baban Bethlehem, plentyn y preseb hwnnw, yn blentyn i'r bydysawd.

Arweinydd: Boed i ni, **heddiw**, roi genedigaeth rasol i'r gwerthoedd a'r gwirionedd a welwyd mewn gweithredoedd ac a glywyd mewn geiriau gan y Gair gwrthodedig, croeshoeliedig, fu'n gwaedu mewn gweddï ar y groes, 'O Dad, maddau iddynt ...'

Y gynulleidfa: **Heddiw**, Iesu, cofiwn a chofleidiwn gariad y baban brenhinol a fu mewn cadachau ym Methlehem digroeso.

Arweinydd: **Heddiw**, cynorthwya ni rhag gorlenwi ein bywydau gorbrysur, fel nad oes lle nac amser i chdi yn ein cartrefi, ein calonnau na'n cynlluniau cul.

Y gynulleidfa: Wrth gofio'r stabl a'r preseb gynt, cadw ni rhag ymgolli yn ein dyhead hunanol am gysuron a hawddfyd na chefaist ti mohonynt. Ond boed i ni gofio a chofleidio tlodion anghenus y blaned hon, y newynog, y digartref, y di-waith, y diymgeledd, yr unig a'r di-deulu.

Arweinydd: Cofiwn am y miloedd, onid y miliynau, sy'n byw mewn ofn ac ansicrwydd oherwydd casineb a chreulondeb annynol mewn rhyfeloedd niferus yn ein byd heddiw.

Y gynulleidfa: **Heddiw**, yng nghyfnod yr Adfent, boed inni adfer parch hanfodol tuag at ein gilydd fel aelodau o'r hil ddynol, er gwaethaf y gwahaniaethau rhyngom o ran lliw croen, cenedl, crefydd, iaith, traddodiad a diwylliant.

Arweinydd: **Heddiw**, boed i ni chwilio'n ddyfal am seren ddisglair i'n goleuo a'n gwefrio

i adnewyddu ein gobaith am gyd-ddealltwriaeth a chyd-gynllunio ymhlith pobloedd ein planed i adfer heddwch a harmoni tangnefeddus.

Y gynulleidfa: Llewyrcha ar ein byd cythryblus a'n bywyd dryslyd er mwyn i lawenydd ledaenu i dywyllwch dudew pob cornel a meddalu pob calon galed i weithredu mewn parch a thiriondeb.

Arweinydd: **Heddiw**, boed i ni ganfod gweledigaeth newydd ar gyfer byd rhwygiedig.

Boed i ni gyd-drafod i chwilio, chwenych a dyheu am ddyfodol mwy disglair a diogel er lles a budd pawb a phob un.

Y gynulleidfa: Rho i ni gymhelliad cryfach i garu ein cymydog fel ni ein hunain ac fel rydym wedi ein caru ac y byddwn yn cael ein caru hyd ddiwedd amser gan ein Tad tragwyddol. Amen.

Gwilym Wyn Roberts

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru